



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail  
School Street  
Tonyrefail  
Porth  
CF39 8LE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol Gymraeg benodedig hon ynghanol pentref Tonyrefail yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwasanaethu'r pentrefi Tonyrefail, Gilfach Goch, Trebanog, Edmunstown, Evanstown a Threthomas. Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd, er bod rhan o'r dalgylch yn ardal Cymunedau'n Gyntaf. Mae cyrhaeddiad disgyblion yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 261 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Fe'u derbynnir yn syth wedi eu trydydd pen-blwydd. Mae'r niferoedd disgyblion wedi codi'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddaraf. Fe'u haddysgir mewn pump o ddsbarthiadau sy'n cynnwys plant o'r un oed a phedwar o ddsbarthiadau cymysg o ran oed. Gan gynnwys y pennaeth a'r athrawes cefnogi dysgu, mae naw o athrawon llawn amser a thri o athrawon rhan amser yn yr ysgol.

Mae 19.5% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim – ffigwr sydd yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae 72 o ddisgyblion (tua 27.5%) ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 27 o'r disgyblion (tua 10%) o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, ond fe gyflwynir rhaglen astudio Saesneg i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Nid oes disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle mai'r Cymraeg neu'r Saesneg yw iaith y cartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2006, a bu newidiadau sylweddol i reolaeth yr ysgol ers hynny. Cafodd y pennaeth ei phenodi i'r swydd ym Medi 2011, ar ôl gweithredu yn bennaeth dros dro am ddwy flynedd cyn hynny. Mae'r dirprwy dros dro cyfredol yn ei swydd ers Medi 2009. Mae trefniadau ar waith i benodi dirprwy llawn amser erbyn Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn 2011-2012 yw £2,715. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf yw £6,499 a'r lleiafswm yw £2,788. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn safle 105ed o'r 114 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn cyrraedd safonau da yn gyffredinol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol i gefnogi eu dysgu;
- bron pob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus mewn Cymraeg o oed cynnar, er bod y rhan fwyaf ohonynt yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf;
- llawer o'r disgyblion yn datblygu'n unigolion annibynnol hyderus, sy'n cyfrannu'n gyfrifol at fywyd yr ysgol;
- safonau addysgu yn gyffredinol dda;
- yr ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu; a bod
- perthynas waith dda rhwng athrawon a disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn meddu ar weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n effeithiol;
- yr uwch-dim rheoli'n gosod disgwyliadau uchel;
- yr ysgol wedi llwyddo i adnabod diffygion a chodi safonau mewn meysydd penodol;
- blaenoriaethau priodol ar gyfer sicrhau gwelliant yn y cynllun datblygu ysgol;
- perthynas waith gref rhwng yr ysgol a'r corff llywodraethol; a bod
- rhannu arfer dda yn rhan o ethos yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau bechgyn, yn arbennig mewn iaith;

A2 gwella presenoldeb disgyblion;

A3 sicrhau bod yr addysgu yn gyson yn rhoi her briodol i ddisgyblion mwy galluog; a

A4 datblygu a sefydlogi rôl strategol arweinwyr yr ysgol.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

O fewn 45 diwrnod, bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu fydd yn manylu ar sut mae'n mynd i'r afael â'r materion hyn.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol. Maent yn gwrando'n astud, yn cydweithio'n dda ac yn gweithio'n ddyfal mewn sesiynau dysgu. Gall mwyafrif y disgyblion drafod eu dysgu yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn hanu o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, mae bron pob un o'r disgyblion, o oed cynnar, yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant sgwrsio'n glir a brwdfrydig am eu gwaith ac mewn amrywiol sefyllfaoedd anffurfiol, gan ddefnyddio geirfa briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol. Gallant ddarllen yn rhugl, yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol, mynegi barn amdanynt, a defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth ar gyfer eu gwaith mewn pynciau gwahanol. Maent yn ysgrifennu'n estynedig yn llwyddiannus mewn Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer, ac yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau eu dosbarthiadau.

Mae asesiadau ar ddisgyblion yn dangos bod eu cyraeddiadau yn gymysg wrth ddechrau yn y'r ysgol. Yn ystod cyfnod allweddol un, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol o ystyried y man cychwyn, a rhai disgyblion yn gwneud yn well na'r disgwyl.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr asesiadau athro yn gyson is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru gyfan, er yn agos at y disgwyliadau ohoni yn 2011 ym mhob un o'r pynciau. O'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn gyson ymhlith y 50% isaf. Mae disgyblion sydd yn cyrraedd lefel 3 neu uwch mewn asesiadau athro yn gyson uchel ar draws y pynciau.

Pymtheg oedd yn y garfan ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011, oedd yn sylweddol llai na'r nifer arferol. Yr oedd naw o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig. Bu cynnydd bron pob disgybl yn y garfan o ddiwedd cyfnod allweddol 1 hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn unol â'r disgwyliadau ohonynt.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bum mlynedd, mae canlyniadau asesiadau athro wedi dangos cynnydd cyson a da ym mhob pwnc ac eithrio Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad yng nghanlyniadau Cymraeg yn 2011. O fewn y teulu o ysgolion, roedd perfformiad yr ysgol yn 2011 yn sylweddol uwch na'r

disgwyliad ym mhob pwnc ac eithrio Cymraeg. O'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn cymharu'n ffafriol ac eithrio mewn Cymraeg yn 2011, pan oedd ymhlith y 25% isaf. Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn asesiadau athro ym mhob pwnc wedi disgyn yn sylweddol yn 2011, wedi cyfnod o ddwy flynedd o ganlyniadau da iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae merched yn gyson yn perfformio'n gyson well na bechgyn, yn arbennig mewn iaith. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched yn fwy anghyson.

Erbyn hyn, mae disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn cyrraedd yr un safonau â disgyblion nad ydynt â'r hawl.

### **Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd.

Teimla'r disgyblion yn rhydd iawn i leisio barn a mynegi pryder. Dangosant barodrwydd i droi at athrawon a ffrindiau i ofyn am gymorth os bydd angen, ac maent yn falch o'r cynllun 'Bytis', sy'n dangos eu consyrn at ddisgyblion eraill.

Mae ymddygiad y plant yn gyson dda ac maent yn parchu 'rheolau aur' yr ysgol.

Mae presenoldeb yr ysgol ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf ers 2006. Fodd bynnag, dengys cyfraddau presenoldeb tymor yr hydref 2011 beth cynnydd.

Mae'r cyngor ysgol, llysgenhadon y Comisiynydd Plant a'r cyngor eco yn gweithredu'n llwyddiannus ar awgrymiadau disgyblion yr ysgol.

Teimla'r disgyblion eu bod yn rhan o'r gymuned leol, ac maent yn cymryd rhan gyson yng ngweithgareddau'r gymuned, trwy ymweld â chartref yr henoed a chymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau chwaraeon.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu sy'n sicrhau cyfoeth o weithgareddau ar gyfer y disgyblion.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n dda i gynllunio'n effeithiol, gan ystyried anghenion gwahanol y disgyblion ac yn darparu gweithgareddau ac adnoddau pwrpasol. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau rhifedd, cyfathrebu, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth priodol o gyfleoedd i ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a datrys problemau.

Rhoddir blaenoriaeth gadarn i ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig, er enghraifft drwy gynnal 'Wythnos Gymreig' a gwobrwyo disgyblion am eu hymdrechion i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur.

Trwy weithgareddau fel ail-gylchu a thyfu llysiâu mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda am werthoedd datblygiad cynaliadwy. Mae'r cyfraniad at ddinasyddiaeth fyd-eang yn briodol trwy waith mewn daearyddiaeth gweithgareddau dyngarol.

### **Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn dda ar draws yr ysgol.

Mewn llawer o'r gwersi, ceir cyflymdra addas, tasgau diddorol a chwestiynu treiddgar sy'n ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Ym mhob dosbarth, mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un sy'n meithrin awyrgylch gartrefol ac o barch. Mae rhan fwyaf yr addysgu yn sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb.

Ym mwyafrif y gwersi, mae'r athrawon yn annog disgyblion i ateb cwestiynau agored ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu dychmygus a medrus. Mae athrawon yn galluogi'r disgyblion i adnabod a chyfrannu at bennu targedau ar gyfer gwella a'u cofnodi mewn amrywiol ffyrdd. Mae llawer o'r athrawon yn sicrhau adborth cyson i ddisgyblion am eu cynnydd a sut gallant wella. Mae disgwyladau'r athrawon, ar y cyfan, yn uchel ac maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion. O fewn ychydig o wersi, nid yw'r addysgu yn sicrhau her a chynnydd digonol ymhlith y disgyblion mwyaf galluog.

Mae trefn ysgol gyfan gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn defnyddio nifer o strategaethau addas i gasglu gwybodaeth a thargedu unigolion a grwpiau neilltuol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gweithredu'n effeithiol mewn llawer o ddosbarthiadau ac mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn y mwyafrif o wersi. Mae athrawon yn gwahaniaethu'n dda ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r targedau personol sydd wedi eu gosod i'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn ffocysu ar feysydd i'w datblygu ymhellach ac yn annog y disgyblion i geisio gwella perfformiad eu hunain. Mae gan y cydlynnydd asesu gwybodaeth dda iawn o ofynion y disgyblion a gosodir targedau buddiol yn dilyn dadansoddiad o'r asesiadau.

Mae adroddiadau i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol, ac yn darparu gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol bolisi a threfniadau effeithiol ar gyfer byw yn iach a lles disgyblion. Trwy gynnal sesiynau cylch, ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol mae'r disgyblion yn cael eu cefnogi a'u canmol am ddatblygu hunan barch a chwarteisi.



Mae profiadau dysgu megis yr 'wythnos gwrth fwlio' yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol i godi safonau ymddygiad disgyblion a chodi canran presenoldeb yr ysgol.

Mae athrawon yn nodi anghenion dysgu disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac yn gosod cynlluniau unigol priodol ar eu cyfer. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac mae'r strategaethau'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol drwy gynnwys disgyblion a rhieni wrth adolygu'r cynnydd. Mae gan y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol wybodaeth dda o anghenion y disgyblion a defnyddir cyfraniadau gan gynorthwyr cymorth dysgu yn effeithiol er mwyn diwallu'r anghenion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae cymuned yr ysgol yn un llawn gofal a chynhwysol iawn. Mae i'r ysgol ethos gartrefol gyda phob un yn cael yr un cyfle ar bob adeg, ac ym mhob gweithgarwch. Mae holl staff yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau'r gofal gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion, ac yn eu parchu. Rhoddir blaenoriaeth uchel i adnabod a pharchu gwahaniaethau, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau'r disgyblion.

Mae safle'r ysgol yn gyfuniad o hen adeilad a chabanau ar safle ar lethr sy'n cynnig her ymarferol o safbwynt symud o gwmpas y safle. Er bod rhannau o'r prif adeilad mewn cyflwr gwael, caiff y safle ei gynnal a chadw'n dwt a thaclus, ac mae'r athrawon yn llwyddo'n dda i oresgyn yr anawsterau. Mae arddangosiadau lliwgar a symbylus ar draws yr ardaloedd dysgu ac yn y cynteddau. Mae'r ddarpariaeth allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyfleoedd gwych i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Er bod y pennaeth ond wedi ei phenodi i'r swydd yn barhaol yn gymharol ddiweddar, mae hi wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir i staff, disgyblion a llywodraethwyr. Mae hi'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn ei harwain yn effeithiol iawn gyda chymorth y dirprwy dros dro. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Er nad yw'r tîm rheoli'n ddigon sefydlog ar hyn o bryd, maent tîm rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus drwy osod disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol. Maent wedi llwyddo i sicrhau gwelliant mewn safonau cyflawniad disgyblion mewn meysydd penodol. Er enghraifft, dengys cofnodion yr athrawon bod cynnydd mewn safonau darllen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r sylw yn awr ar ddatblygu ysgrifennu.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol sy'n helpu'r staff addysgu i wella eu harferion.

Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â dosbarth o fewn yr ysgol. Mae dealltwriaeth y llywodraethwyr o ddata perfformiad yr ysgol dros gyfnod yn glir, ac mae eu rôl fel ffrind beirniadol sy'n herio'r ysgol yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus, yn arbennig y ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu sydd wedi gwreiddio'n dda drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymgymryd â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol llwyddiannus.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae canfyddiadau'r broses hunan arfarnu yn bwydo blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn briodol. Mae defnydd da o dystiolaeth o arsylwadau gwersi gan y tîm rheoli, canlyniadau gwrando ar ddysgwyr a thystiolaeth o graffu ar waith y disgyblion. Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da, yn drylwyr ac yn nodi'n glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae pob aelod staff yn cyfrannu at yr hunan arfarnu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen effeithiol. Mae wedi ei seilio ar flaenoriaethau cadarn a thrwy adolygu'r cynllun datblygu blaenorol. Mae cyfrifoldebau staff wedi eu nodi'n glir, ynghyd â meini prawf llwyddiant a threfniadau monitro gweithrediad y bwriadau. Mae costau'r blaenoriaethau wedi eu nodi'n glir.

Mae'r ysgol yn rhan o rwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol a thu hwnt. Yn fewnol, mae'r ysgol yn gweithio ar wella sgiliau mathemateg pen ac yn gweithio gyda chlwstwr o ysgolion lleol ar godi safonau llythrennedd.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd y mae'r staff yn rhannu arfer dda gyda'i gilydd yn rheolaidd yn dilyn hyfforddiant neu gyrsiau. Caiff hyn effaith glir ar fedrau a hyder y staff.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cyd-weithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaid i wella profiadau dysgu disgyblion ar draws yr ysgol ac i fanteisio ar gyllid ac adnoddau ychwanegol.

Mae perthynas yr ysgol gyda'r rhieni ar y cyfan yn dda, ond nid yw'r broses o gyfathrebu gyda'r rhieni ar rai materion penodol bob amser yn glir. Er enghraifft, nid oes cyfleoedd ffurfiol i'r rhieni fynegi eu barn am agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi datblygu perthynas gref gyda'r cylchoedd meithrin lleol. Mae'r plant lleiaf yn cael cyfle priodol i ymgartrefu cyn dechrau yn yr ysgol.

Mae perthynas effeithiol iawn rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol gyda'r trefniadau pontio yn paratoi'r disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer trosglwyddo i

Flwyddyn 7. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dod i adnabod staff allweddol yr ysgol uwchradd yn gynnar drwy gyfarfodydd a gwersi penodol gan athrawon yr ysgol uwchradd.

Mae trefniadau priodol ar waith rhwng ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd ar gyfer cymedroli a chydsafoni gwaith yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r gymuned leol trwyymweliadau cyson â'r llyfrgell, canolfan ddydd yr henoed, siopau lleol a'r eglwys. Mae'r ysgol hefyd yn weithgar yn y gymuned, er enghraifft wrth gasglu sbwriel yn ystod wythnos 'Cadw Cymru'n Daclus'.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac maent yn defnyddio adnoddau yn dda.

Mae cydweithio da rhwng yr athrawon a'r staff cynorthwyol ac mae'r berthynas hon yn effeithiol wrth sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r disgyblion ac i greu amgylchedd dysgu symbylus drwy'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gwariant yn fanwl. Mae'r ysgol yn gwario eu cyllid yn ofalus gan sicrhau fod pob adran o fewn yr ysgol yn cael sylw yn eu tro. Bu buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar mewn offer technoleg gwybodaeth.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

#### Cyfnod allweddol 1

Mae asesiadau sylfaen disgyblion yn dangos bod eu cyraeddiadau yn gymysg wrth ddechrau'r ysgol. Yn ystod cyfnod allweddol un, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol o ystyried y man cychwyn, a rhai disgyblion yn gwneud yn well na'r disgwyl.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae perfformiad yr ysgol mewn asesiadau athro yn gyson is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru gyfan ers 2007 ym mhob un o'r pynciau craidd ac yn y dangosydd pwnc craidd. O fewn y teulu o ysgolion, roedd perfformiad yr ysgol yn 2011 yn unol â'r disgwyliadau ohoni ym mhob un o'r pynciau. Mae'r perfformiad ers 2007 wedi bod ar gyfartaledd ychydig yn is na'r disgwyl o fewn y teulu.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn gyson ymhlith y 25% neu'r 50% isaf ym mhob un o'r pynciau. Mae disgyblion sydd yn cyrraedd lefel 3 neu uwch mewn asesiadau athro yn gyson uchel ar draws y pynciau.

#### Cyfnod allweddol 2

Pymtheg oedd yn y garfan ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011, oedd yn sylweddol llai na'r nifer arferol. Yr oedd naw o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig. Bu cynnydd bron pob disgybl yn y garfan o ddiwedd cyfnod allweddol 1 hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn unol â'r disgwyliadau ohonynt.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bum mlynedd, mae canlyniadau asesiadau athro wedi dangos cynnydd cyson a da ym mhob pwnc ac eithrio Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad yng nghanlyniadau Cymraeg yn 2011. O fewn y teulu o ysgolion, roedd perfformiad yr ysgol yn 2011 yn sylweddol uwch na'r disgwyliad ym mhob pwnc ac eithrio Cymraeg. O'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn gyson yn cymharu'n ffafriol. Yr oedd Saesneg ymhlith y 25% uchaf yn 2011, mathemateg a gwyddoniaeth yn yr 50% uchaf, a Chymraeg yn 2011 ymhlith y 25% isaf.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn asesiadau athro ym mhob pwnc wedi disgyn yn sylweddol yn 2011, wedi cyfnod o ddwy flynedd o ganlyniadau da iawn oedd yn gosod yr ysgol ymhlith 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyson, yn arbennig mewn iaith. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r gwahaniaeth rhwng bechgyn yn fwy anghyson, ac nid yw'n arwyddocaol o gwbl mewn Cymraeg.

Erbyn hyn, mae disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn cyrraedd yr un safonau â disgyblion nad dynt â'r hawl.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymateb i holiaduron disgyblion

Derbyniwyd 100 o ymatebion oddi wrth ddisgyblion, gyda'r ymatebion yn rhai cadarnhaol iawn yn gyffredinol. Mae bron pob disgybl yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu, a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Maent hefyd o'r farn bod bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu ofidio neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn datgan bod llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd, a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith.

Yn ôl barn llawer o'r disgyblion, maent yn gwneud yn dda yn yr ysgol, ac mae eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol. Maent o'r farn hefyd bod plant eraill yn ymddwyn yn dda heb amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

#### Ymatebion i holiaduron rhieni

Derbyniwyd 37 o ymatebion. Mae'r rhieni i gyd yn meddwl bod disgwyliadau uchel gan staff yr ysgol o'r disgyblion. Mae bron pob un ohonynt yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol, ac mae'r rhan fwyaf yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol, ac wedi derbyn pob cymorth wrth ddechrau yno. Maent o'r farn bod eu plant yn gwneud cynnydd da ac yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, a bod yr addysgu'n dda. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch, a chânt eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent o'r farn bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, a'u bod yn cael cymorth ychwanegol priodol pan fo'i angen.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu wneud awgrymiadau i'r ysgol, ac yn credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Ym marn llawer o'r rhieni, mae gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol, a'u bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson am eu plant. Maent yn deall trefn yr ysgol ynglŷn â gwneud cwynion, ac yn nodi bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed rhieni hefyd bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'w hysgol nesaf, a bod amrywiaeth dda o weithgareddau yn yr ysgol, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Terwyn Tomos	Arolygydd Cofnodol
Michael Hayes	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Dylan Evans	Arolygydd Cymheiriaid
Nia Downes	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.